Prifnewyddion

Cylchlythyr y Dreth Gyngor 2020

Treth Gyngor 2020/21

Manylion y Gwariant Cyfalaf a Refeniw ar Wasanaethau

Mae Cyllideb 2020/21 yn cydbwyso'r angen i barhau i ddarparu gwasanaethau hollbwysig sydd bwysicaf i breswylwyr ar adeg pan fo galw cynyddol ond prinder adnoddau. Mae'r cynlluniau a nodir ar gyfer Refeniw (gwariant o ddydd i ddydd) a Chyfalaf (buddsoddi mewn seilwaith) yn ceisio sicrhau'r cydbwysedd hwn.

Mae'r arian sydd ar gael yn cael ei ddyrannu i gefnogi'r broses o gyflawni blaenoriaethau allweddol a buddsoddi yn nyfodol y ddinas. Mae'r Gyllideb Refeniw a'r Rhaglen Gyfalaf wedi'u datblygu ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol ac maent yn cefnogi blaenoriaethau uchelgais cyfalaf, sef:

- Gweithio dros Gaerdydd: sicrhau bod pawb sy'n byw ac yn gweithio yma yn gallu cyfrannu at lwyddiant y ddinas a mwynhau'r buddion.
- Gweithio dros Gymru: mae angen prifddinas lwyddiannus ar Gymru lwyddiannus.
- Gweithio ar gyfer y Dyfodol: rheoli twf y ddinas mewn ffordd gynaliadwy
- Gweithio dros Wasanaethau Cyhoeddus: sicrhau bod ein gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu darparu'n effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy a hwythau'n wynebu galw cynyddol a chyllidebau llai.

Wrth baratoi'r gyllideb, mae'r Cyngor hefyd wedi ystyried canlyniadau'r ymarfer ymgynghori ar y gyllideb, a ofynnodd i'r ymatebwyr nodi'r meysydd hynny y teimlent y dylid rhoi blaenoriaeth iddynt o ran gwariant.
Y pum prif flaenoriaeth a nodwyd oedd buddsoddi mewn trafnidiaeth gynaliadwy, adeiladu mwy o dai fforddiadwy, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, cefnogi addysg ein plant ac ymyrryd yn gynnar i gefnogi plant sy'n agored i niwed. Mae pob un yn flaenllaw yng Nghyllideb Refeniw a Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

Mae Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020/21 yn cynnwys cynnydd o £10.4 miliwn (+4.3 %) ar gyfer cyllidebau dirprwyedig ysgolion. Mae hefyd yn cynnwys cyllid ychwanegol net gwerth £11.3 miliwn (+6.5 %) i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn cefnogi plant sy'n agored i niwed a gofalu am ein poblogaeth sy'n heneiddio. Mae cymorth refeniw ychwanegol hefyd ar gyfer Rhaglen Cwricwlwm Addewid Caerdydd, y Gwasanaeth Ieuenctid a Glanhau Strydoedd.

Mae'r gyllideb yn cynnwys cynnydd o 4.5 % yn y Dreth Gyngor sy'n codi incwm ychwanegol net gwerth £6,594,000 ac yn tynnu £750,000 i lawr o'r cronfeydd wrth gefn. Arbedion cyfarwyddiaethau gwerth £9.764 miliwn yw'r cyfraniad mwyaf tuag at fantoli'r Gyllideb. Mae hyn yn adeiladu ar arbedion gwerth bron £225,000,000 a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf.
Mae Rhaglen Gyfalaf y Cyngor ar gyfer 2020/21–2024/25 yn cynnwys buddsoddiad sylweddol mewn blaenoriaethau allweddol.

Yn ogystal â chefnogaeth sylweddol ar gyfer tai fforddiadwy a gwella cyflwr ysgolion, ceir buddsoddiad i wella seilwaith trafnidiaeth, gan gynnwys mesurau i annog beicio a cherdded. Mae cefnogaeth ar gyfer addasiadau i bobl anabl i'w helpu i aros yn eu cartrefi eu hunain, ac ar gyfer projectau cynaliadwyedd ynni a mentrau i fynd i'r afael â risgiau llifogydd ac erydu arfordirol.

Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor yn awgrymu y bydd y Cyngor yn wynebu bwlch cyllidebol pellach o £73.4 miliwn dros y pedair blynedd ar ôl 2020/21, a hynny oherwydd pwysau ariannol a oedd yn fwy na'r arian a ragwelwyd, gyda £19.1 miliwn o hyn yn 2021/22. Yn wyneb dewisiadau anodd o'n blaenau, bydd y Cyngor yn parhau i geisio gwelliannau yn y modd y mae'n darparu gwasanaethau a, thrwy ymgysylltu'n barhaus â dinasyddion, cymunedau a rhanddeiliaid eraill, bydd yn ystyried ei flaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau yn y dyfodol yn ofalus.

AA
(Ardrethi Annomestig)

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y gyfradd ar **53.5c** yn y **£**

UCHELGAIS PRIFDDINAS CAPITAL AMBITION

CARDIFF CAERDYDD

Sut y Cyfrifir eich Bil

Y cyfanswm y byddwch yn ei dalu=		A £	B £	C £	D £	E £	F £	G £	H £	I £
	1. Cyngor Caerdydd	843.71	984.33	1,124.95	1,265.57	1,546.81	1,828.05	2,109.28	2,531.14	2,953.00
+1. Treth Gyngor Caerdydd	2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru	181.81	212.11	242.41	272.72	333.32	393.92	454.53	545.43	636.34
+2. Comisiynydd Heddlu a Trosedd ar gyfer De Cymru	3. Cynghorau Cymuned									
	Llys-faen	12.01	14.01	16.01	18.01	22.01	26.01	30.02	36.02	42.02
	Pentyrch	35.18	41.04	46.91	52.77	64.50	76.22	87.95	105.54	123.13
	Radur a Phentre-poeth	21.91	25.57	29.22	32.87	40.17	47.48	54.78	65.74	76.70
	Sain Ffagan	12.88	15.03	17.17	19.32	23.61	27.91	32.20	38.64	45.08
+3. Treth y Cyngor Cymuned	Pentref Llaneirwg	14.84	17.31	19.79	22.26	27.21	32.15	37.10	44.52	51.94
	Tongwynlais	18.70	21.82	24.93	28.05	34.28	40.52	46.75	56.10	65.45

Beth Fyddwch chi'n ei Dalu

	A £	B £	C £	D £	E £	F £	G £	H £	I £
Llys-faen	1,037.53	1,210.45	1,383.37	1,556.30	1,902.14	2,247.98	2,593.83	3,112.59	3,631.36
Pentyrch	1,060.70	1,237.48	1,414.27	1,591.06	1,944.63	2,298.19	2,651.76	3,182.11	3,712.47
Radur a Phentre-poeth	1,047.43	1,222.01	1,396.58	1,571.16	1,920.30	2,269.45	2,618.59	3,142.31	3,666.04
Sain Ffagan	1,038.40	1,211.47	1,384.53	1,557.61	1,903.74	2,249.88	2,596.01	3,115.21	3,634.42
Pentref Llaneirwg	1,040.36	1,213.75	1,387.15	1,560.55	1,907.34	2,254.12	2,600.91	3,121.09	3,641.28
Tongwynlais	1,044.22	1,218.26	1,392.29	1,566.34	1,914.41	2,262.49	2,610.56	3,132.67	3,654.79
Ardaloedd Eraill	1,025.52	1,196.44	1,367.36	1,538.29	1,880.13	2,221.97	2,563.81	3,076.57	3,589.34

GALL CARTREFI AG UN OEDOLYN YN UNIG HAWLIO GOSTYNGIAD O 25 %

Bandiau'r Dreth Gyngor

Mae'r Dreth Gyngor yn seiliedig ar werth marchnad agored anheddau domestig ar 1 Ebrill 2003. Yr Asiantaeth Brisio sy'n penderfynu ar werth annedd. Yn seiliedig ar brisiant yr Asiantaeth ar annedd penodol, fe'i gosodir yn un o'r naw band prisio A-I sy'n penderfynu ar y dreth gyngor sy'n daladwy mewn perthynas â'r eiddo.

Band Prisio	Ystod gwerthoedd ar 1 Ebrill 2003	Y Dreth Gyngor sy'n daladwy fel canran cost Band D
A	Heb fod yn fwy na £44,000	6/9
B	£44,001 - £65,000	7/9
C	£65,001 - £91,000	8/9
D	£91,001 - £123,000	9/9
E	£123,001 - £162,000	11/9
F	£162,001 - £223,000	13/9
G	£223,001 - £324,000	15/9
H	£324,001 - £424,000	18/9
I	Gwerthoedd sy'n fwy na £424,000	21/9

Dylid cyfeirio ymholiadau mewn perthynas â phrisiannau i: Swyddfa Brisio Cyllid y Wlad, Y Swyddog Rhestru, Asiantaeth Swyddfa Brisio,Tyˆ Glas Road, Llanisien, Caerdydd. CF14 5GR

Archebiannau'r Cyngor Cymuned

2019/20 £		2020/21 £
39,000	Llys-faen	45,000
155,000	Pentyrch	175,000
124,347	Radur a Phentre-poeth	126,254
20,500	Sain Ffagan	30,750
37,000	Pentref Llaneirwg	45,566
21,000	Tongwynlais	23,000

Asesiad Gwariant Safonol

	£m
Asesiad Safonol y Cynulliad ar gyfer gwariant y Cyngor yw:	668.2
Yr Union Gyllid a gymeradwyir gan y Cyngor yw:	655.5

Os oes angen gwybodaeth am gyfleoedd hyfforddi i geiswyr gwaith arnoch, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt y Cyngor (ffôn: 2087 2088). Os credwch y gallech fod yn gymwys i hawlio Budd-dal Tai neu leihad Treth Gyngor ffoniwch 20872088 am ragor o wybodaeth.

Newidiadau mewn Cronfeydd Ariannol Wrth Gefn

	Brasamcan o'r Balans 31.3.2020	Symudiadau Arfaethedig yn 2020/21	Brasamcan o'r Balans 31.3.2021
	£000	£000	£000
Cronfa Refeniw Cyffredinol	14,255	0	14,255
Cronfeydd wedi'u Clustnodi	43,656	(2,953)	40,703
Cronfa Gyffredinol HRA	8,473	0	8,473
Cronfeydd HRA	0	1,000	1,000
	66,384	**(1,953)**	**64,431**

Gwariant a Chyllid Cyfalaf 2020/21

Gwariant:	**£000**
Cronfa Gyffredinol	137,529
Tai Cyhoeddus	56,775
CYFANSWM Y GWARIANT	**194,304**
Ariannwyd gan:	**£000**
Benthyca	96,117
Derbyniadau Cyfalaf	10,722
Grantiau a Chyfraniadau a Lwfans Gwaith Atgyweirio Mawr	84,000
Adnoddau Eraill y Cyngors	3,465
CYFANSWM Y CYLLID	**194,304**

Gwariant Refeniw 2019/20

Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth	Gwariant Gros £000	Income £000	Gwariant Gros £000
Rheolaeth Gorfforaethol	7,020	(101)	6,919
Datblygu Economaidd	41,629	(37,877)	3,752
Addysg	331,293	(60,346)	270,947
Tai a Chymunedau	241,790	(197,646)	44,144
Perfformiad a Phartneriaethau	7,935	(5,145)	2,790
Gwasanaethau Cymdeithasol	195,078	(25,232)	169,846
Awdurdod Harbwr Caerdydd	6,258	(6,258)	0
Cyfrif Refeniw Tai	81,607	(81,607)	0
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	97,074	(60,471)	36,603
Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol	6,678	(1,180)	5,498
Adnoddau	31,008	(14,636)	16,372
Cyllido Cyfalaf	36,992	(548)	36,444
Cyfrif Refeniw Cryno	11,714	(928)	10,786
Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth	**1,096,076**	**(491,975)**	**604,101**
Ardollau	19,088	0	19,088
Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn	400	0	400
Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn	0	(2,750)	(2,750)
Cyfanswm Gwariant y Cyngor	**1,115,564**	**(494,725)**	**620,839**
Grant Cynnal Refeniw			(328,126)
Ardrethi Annomestig			(116,504)
Y Dreth Gyngor			**176,209**
Mae'r cyfanswm gwariant yn cynnwys rdollau sy'n daladwy i:	**£000**		
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	18,142		
Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd	114		
Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd	5		
Cyfoeth Naturiol Cymru	139		
Crwner	688		
	19,088		

Gwariant Refeniw 2020/21

Dadansoddiad fesul Cyfarwyddiaeth	Gwariant Gros £000	Income £000	Gwariant Gros £000
Rheolaeth Gorfforaethol	7,530	(101)	7,429
Datblygu Economaidd	44,971	(40,870)	4,101
Addysg	343,996	(58,049)	285,947
Tai a Chymunedau	245,301	(200,371)	44,930
Perfformiad a Phartneriaethau	8,368	(5,364)	3,004
Gwasanaethau Cymdeithasol	213,147	(31,534)	181,613
Awdurdod Harbwr Caerdydd	6,158	(6,158)	0
Cyfrif Refeniw Tai	84,141	(84,141)	0
Cynllunio, Trafnidiaeth a'r Amgylchedd	102,391	(61,911)	40,480
Gwasanaethau Llywodraethiant a Chyfreithiol	6,885	(1,180)	5,705
Adnoddau	30,559	(14,716)	15,843
Cyllido Cyfalaf	32,949	(548)	32,401
Cyfrif Refeniw Cryno	16,275	(928)	15,347
Cyfanswm Gwariant y Gyfarwyddiaeth	**1,142,671**	**(505,871)**	**636,800**
Ardollau	18,986	0	18,986
Gostyngiad Treth yn ôl Disgresiwn	400	0	400
Cyfraniadau o Gronfeydd wrth gefn	0	(750)	(750)
Cyfanswm Gwariant y Cyngor	**1,162,057**	**(506,621)**	**655,436**
Grant Cynnal Refeniw			(344,468)
Ardrethi Annomestig			(124,579)
Y Dreth Gyngor			**186,389**
Mae'r cyfanswm gwariant yn c ynnwys rdollau sy'n daladwy i:	**£000**		
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru	17,985		
Awdurdod Iechyd Porth Caerdydd	118		
Awdurdod Iechyd Porth Casnewydd	6		
Cyfoeth Naturiol Cymru	139		
Crwner	738		
	18,986		